

## Cofnodion Is-bwyllgor cyllid Y Bala 18 Rhagfyr 2020

**Presennol:** Y Maer, Eifion Roberts, Rhys Evans, Dilys Evans, a Lis Puw (Clerc)

1. Cafwyd Cofnodion Is-bwyllgor cyllid Rhagfyr 18 2019 yn gywir.
2. **Adolygu:**
  - i. Rheolau Ariannol (Un Llais Cymru) – *adolygwyd yn Nhachwedd 2020*
  - ii. Asesiad o Risgau Ariannol – *adolygwyd yn Nhachwedd 2020*
3. **Archwiliad Ariannol 2019-20:**
  - i. Adolygwyd y broses archwilio mewnol 2019-20 a'i gael yn foddhaol iawn o dan amgylchiadau Covid 19.
  - ii. Penodwyd Luned Fôn (Cyngor Gwynedd) fel Archwilydd Mewnol ar gyfer 2020-21.
  - iii. Cytunwyd i anfon Llythyr Ymrwymiad at Archwilydd Mewnol 2020-21.
  - iv. Ystyriwyd ymhellach Adroddiad yr Archwilwyr Allanol 2019-20 (BDO); nid oedd materion wedi codi.
4. Atgoffwyd yr aelodau o ffocws Archwiliad Allanol 2020-21: **Trafodion ariannol.** Cytunwyd ei bod wedi bod yn anodd iawn eleni i gael 2 Gynghorydd i lofnodi sieciau, gydag aelodau yn hunan-ynysu. Nodwyd cyfarwyddyd y Maer ac aelodau'r Is-bwyllgor ar ddechrau'r cyfnod clo i'r Clerc allu arwyddo sieciau gyda Mrs Dilys Evans (HSBC) pe na fyddai'r llofnodwyr eraill ar gael oherwydd amgylchiadau Covid 19. Nodwyd hefyd na fyddai disgwyl i'r Clerc fynychu'r Banc oni bai ei bod yn teimlo'n ddigon diogel i wneud hynny.
5. **Adolygwyd Cyflogau:** dywedodd y Clerc nad oedd yn dymuno i'r Cyngor ychwanegu at y cyflog. Cytunwyd i ddilyn canllawiau NALC pan fyddant yn cael eu cyhoeddi ac yn y cyfamser codi'r swm yn y Gyllideb yn ddigonol i dalu am unrhyw ychwanegiad a all fod yng Nghytundeb NALC.
6. **Y sefyllfa ariannol:** ystyriwyd yn fanwl y sefyllfa bresennol a'r rhagamcan erbyn diwedd y flwyddyn. Trafodwyd:

Rhent: Ar hyn o bryd mae'r rheolau'n parhau bod angen cyfarfod mewn man cyhoeddus lle gall aelodau o'r Cyhoedd ac o'r Wasg fod yn bresennol i wrando ar drafodaethau'r Cyngor. Dim ond oherwydd amgylchiadau Covid 19 y mae caniatâd i gyfarfod ar lein.

### Prosiectau arbennig 2020-21:

- i. Prosiect Adnoddau i Ieuentid Anghenus: £5000. Cafwyd sicrwydd y gwariwyd ar offer TG er mwyn i Ieuentid allu cyflawni gwaith addysgol, yn arbennig yn ystod y cyfnod clo.
- ii. Prosiect Byrddau Gwybodaeth – nid oedd yn bosib parhau gyda hwn yn ystod y cyfnod clo, ond gosodwyd QR ar y Golofn Coffa.
- iii. Prosiect Goleuadau Nadolig: er ymdrechion cyn y cyfnod clo i gynllunio'r prosiect gyda mudiadau eraill, dim ond goleuadau a brynwyd gan y Cyngor a gyflawnwyd eleni (bydd y cyfanswm tua £600).

Sicrhad arian cyhoeddus: Cytunwyd na ddylid fod yn gwario tu hwnt i'r hyn a gynlluniwyd amdano. Er mwyn cyflawni hyn, ac er mwyn sicrhau rheolaeth o arian cyhoeddus, cytunwyd:

- i. Yn ychwanegol at geisiadau am gyfraniad, disgwylir i grwpiau cymunedol gyflwyno mantolen ac anfoneb penodol / prawf o wariant am yr hyn oedd yng nghais llynedd. Bydd angen rhoi gwybod i'r grwpiau am hyn.
- ii. Mae ceisiadau annisgwyl wedi bod yn cyrraedd oddi wrth y Grŵp Busnes yn ystod blwyddyn ariannol. Disgwylir i'r Grŵp Busnes wneud cais penodol am

gyfraniad ym mis Chwefror fel pob grŵp arall, gyda'r cais yn dangos bod y Grŵp yn cyfrannu arian cyfatebol i'r hyn a ofynnir amdano. Mwyafswm o £300 mewn blwyddyn fydd cyfraniad y Cyngor at y Grŵp Busnes.

Erbyn 30/3/20 mae'n ymddangos y bydd y Cyngor wedi gwario'n fwy nag a gynlluniwyd ar ei gyfer OND cytunwyd llynedd i ddefnyddio £5000 o'r Cyfrif Cadw ar gyfer Prosiect Plant Anghenus. Trosglwyddwyd £5000 o'r cyfrif Cadw ar gyfer hyn.

Gan fod y Cyngor mewn trafodaethau gyda Cyngor Gwynedd ar fater talu £8000 am y toiledau, fe drosglwyddwyd £10,000 i'r Cyfrif Cadw am y tro.

Sieciau 2019-20: Ni chyflwynwyd rai sieciau cyn diwedd y flwyddyn ariannol cynt:

£2000 Eisteddfod Powys

£200 Clwb Hoci

£150 Clwb Badminton (a oedd wedi gadael i'r siec fynd yn rhy hen i'w chyflwyno)

**7. Blaenoriaethau gwariant:**

- i. Cytunwyd i brynu cyfrifiadur ar gyfer defnydd Clerc y Cyngor (cost £600, llai £100 TAW = £500) o dan pennawd OFFER
  - ii. Goleuadau Nadolig: Cytunwyd i roi £2000 o dan y pennawd NADOLIG
  - iii. Cytunwyd i brynu di-ffib i'r ciosg yn y Stryd Fawr – o dan y pennawd GWARIANT ARALL
  - iv. Cytunwyd i ofyn i Chris Ellis ei gadw'n lân (gweler pennawd CYNNAL A CHADW i £800 – hwn yn awr yn cynnwys glanhau'r ciosg a glanhau'r llochesi bws)
8. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2021-22 i adlewyrchu'r trafodaethau uchod.
9. **Praesept ar gyfer 2020-21:** Argymelliad lefel y praesept yr is-bwyllgor i sylw'r Cyngor llawn yw £27,000. Golyga hyn fod tŷ Band D yn talu £2.60 y flwyddyn yn fwy o dreth cyngor na llynedd.